**Cyfarfod Llawn 2002 – 2003 (18)**

**Dydd Iau, 11 Gorffennaf 2002**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Atebwyd y 6 chwestiwn cyntaf.

**9.25am**
**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Atebwyd y 6 chwestiwn cyntaf.

**9.45am**
**Datganiad: Gwnaeth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ddatganiad ar Allied Steel and Wire**

**10.22am**
**Datganiad: Gwnaeth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ar Ofal Lliniarol**

**10.56am**
**Elin Jones** ynghylch Gweinidogion yn gwneud datganiadau i'r Cynulliad.

**Cynnig Cyfansawdd** ***- Ni symudwyd yr eitem hon. Mae wedi'i hailamserlennu ar gyfer dydd Iau 18 Gorffennaf 2002.***
***NDM1121 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:*

1. Yn cymeradwyo:
**Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002.

2. Yn ystyried:
a) Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2002,

b) Yr Arfarniad Rheoliadol a'i atodiadau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin

2002,

c) Y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2002.

3. Yn cymeradwyo:
**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cwmnïau) (Diwygio) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002; ac

4. Yn ystyried:
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cwmnïau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mehefin 2002

5. Yn cymeradwyo:
**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002; ac

6. Yn ystyried:
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2002.

7. Yn cymeradwyo:
**Gorchymyn Crancod Heglog Rhy Fach (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002; ac

8. Yn ystyried:
a) Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Crancod Heglog Rhy Fach (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2002
b) Yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002.

9. Yn cymeradwyo:
**Rheoliadau Pysgod Cregyn (Dynodi Cramenogion) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002; ac

10. Yn ystyried:
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Pysgod Cregyn (Dynodi Cramenogion) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2002.

**Cymeradwyo Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2002 - *Ni***

***symudwyd y cynigion hyn.***
***NDM1122 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol*, yn ystyried egwyddor Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
'....ac yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a gytunwyd ar 19 Mehefin 2002.'

*Gellir gweld adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar y Fewnrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn;*

*http://assembly/committees/Agriculture%20&%20Rural%20Development/2002/10-02%20(19%20June)/plenaryreportonWelfareoffarmedanimals.html*

***NDM1123 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno a'u hanfon trwy e-bost at yr Aelodau ar 4 Gorffennaf 2002;

2. Yn cymeradwyo:
a) bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002
b) yr Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002

**11.00am**
**Cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2002**
***NDM1124 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol* yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**

O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40

**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

***NDM1125 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2002.

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**

O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40

**Cymeradwywyd y Gorchymyn.**

**11.03am**
**Cymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 24, *The Transport & Works (Application & Objections Procedure) (England & Wales) Rules 2002***
**NDM1126 -** Bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu yn unol â darpariaethau Rheol Sefydlog 24, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud *The Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) (Amendment) Rules 2002*, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2002.

(Gellir gweld y cysylltiadau â gwefan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, sy'n cynnwys y papur ymgynghori a'r asesiad effaith rheoliadol, isod:
http://www.planning.odpm.gov.uk/consult/afsoswf/index.htm
neu, pan y cânt eu harchifo, yn http://www.planning.odpm.gov.uk/conindex.htm)

Gosodwyd *The Transport and Works (Applications and Objections Procedure)(England and Wales) (Amendment) Rules 2002* yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2002.
Gosodwyd y memorandwm esboniadol, a oedd yn cynnwys y goblygiadau ariannol, yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**

O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 39

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Dadl ar Gynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy - *Ni symudwyd yr eitem hon, gan nad oedd cynnig wedi'i gyflwyno.***

**11.12am**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol**

***NDM1127 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn nodi'r camau a gymerwyd i roi Cynllun y Sector Gwirfoddol ar waith yn ystod y cyfnod tan 31 Mawrth 2002 ac yn cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol;

2. Yn gwerthfawrogi'n arbennig waith y sector gwirfoddol a'i gyfraniadau at broses llunio polisi'r Cynulliad Cenedlaethol;

3. Yn cydnabod y cyfraniad pwysig a wnaed gan y sector gwirfoddol a'r modd adeiladol y mae'r sector a'r Cynulliad wedi cydweithio â'i gilydd yn ystod y flwyddyn, yn enwedig trwy Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.

Gosodwyd Ail Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2002.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 2, ychwanegu ar ôl Cenedlaethol:
', yn enwedig o ran y themâu trawsbynciol allweddol, sef hybu Datblygu Cynaliadwy, Cyfle Cyfartal, Cynhwysiant Cymdeithasol, a'r gwaith o feithrin Cymru ddwyieithog'

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn croesawu cyhoeddi'r Cod Ymarfer ar Ariannu'r Sector Gwirfoddol ac yn cydnabod ei bod yn bwysig i'r Cynulliad, y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a'r Awdurdodau Lleol lynu wrth y Cod.

*Gellir dod o hyd i'r Cod Ymarfer ar Ariannu'r Sector Gwirfoddol ar y Fewnrwyd gan ddefnyddio'r cyswllt hwn;*

*http://www.wales.gov.uk/themesvoluntarysector/content/codeofpractice/index.htm*

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Y cynnig fel y'i diwygiwyd**

O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

**11.55am**
**Cynnig Trefniadol**
**Cynigiodd** ***y Trefnydd gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y cynnig heb ddyddiad trafod NNDM1129 a restrwyd o dan eitem 13 ar yr agenda.***

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol**

O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol.**

**Oherwydd y bu'r cynnig trefniadol yn llwyddiannus, trafodwyd eitemau 12 a 13 gyda'i gilydd ond symudwyd y cynigion a phleidleisiwyd arnynt ar wahân.**

**11.56am**
**Dadl ar y Cynllun Cyhoeddi Drafft o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**
***NDM1128 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn ystyried drafft y Cynllun Cyhoeddi y mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei fabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

2. Yn nodi y caiff y drafft ei olygu ymhellach yng ngoleuni'r sylwadau a wneir heddiw yn y cyfarfod llawn ac o ganlyniad i ymgynghoriad eang. Caiff y drafft ei symleiddio hefyd er mwyn cynnwys esboniadau hawdd i'w deall o bob un o'r dosbarthiadau a restrir ynddo, ac er mwyn ystyried sylwadau swyddogion ar draws holl ystod grwpiau'r Cynulliad Cenedlaethol; ac

3. Yn gwahodd y Gweinidog dros Lywodraeth Agored i gyflwyno'r Cynllun diwygiedig i'r Comisiynydd Gwybodaeth i'w gymeradwyo. Yn dilyn ei chymeradwyaeth, caiff y Cynllun ei gyflwyno i'r cyfarfod llawn i'w gymeradwyo'n derfynol.

Gosodwyd copi o'r Cynllun Cyhoeddi drafft yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2002.

Gosodwyd nodyn esboniadol hefyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2002.

Gellir gweld y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn: http://www.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000036.htm

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1, ac ailrifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:
Yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion ateb cwestiynau yn llafar ac yn ysgrifenedig ar bob un o'u cyfrifoldebau, yn ôl egwyddorion atebolrwydd a natur agored y mae'r cynllun cyhoeddi drafft yn seiliedig arnynt.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2, ac ailrifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:
Yn nodi nad yw'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio â gofynion y cynllun cyhoeddi drafft yn cael eu nodi ar adegau ac felly, yn yr achosion hynny, dylid darllen y Cynllun Cyhoeddi

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 41

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 41

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Y cynnig**

O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Dirprwyo Swyddogaethau i Brif Weinidog Cymru**
***NNDM1129 -*** *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru,* gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol, sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu sy'n dod o dan y Ddeddf honno.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Gellir gweld Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000036.htm

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40

**Derbyniwyd y cynnig.**

**12.21pm**
**Dadl Fer: *NNDM1130* Owen John Thomas (Canol De Cymru): Prydles - Diwygio Pellach**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.46pm**

**********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a osodwyd ar 10 Gorffennaf 2002**

Awdurdod Datblygu Cymru: 2002 Adroddiad Arianol a Chyfrifon - LD1562
Report of the Business Committee Proposal to Change Standing Orders - LD1563. Dim copi Cymraeg ar gael.
The Special Educational Needs and Disability Tribunal (General Provisions and Disability Claims Procedure) Regulations 2002 - LD1565. Dim copi Cymraeg ar gael.
The Special Educational Needs and Disability Tribunal (General Provisions and Disability Claims Procedure) Regulations 2002 - Explanatory Memorandum - LD1564. Dim copi Cymraeg ar gael.
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2002 - Memorandwm Cywiriadau - LD1566
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002 - Memorandwm Cywiriadau - LD1567
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002- Memorandwm Cywiriadau - LD1568

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) 2002- Memorandwm Cywiriadau - LD1569
Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2002 - Memorandwm Cywiriadau - LD1570
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 20022002 - Memorandwm Cywiriadau - LD1571
Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 8) (Cymru) 2002 - LD1572
Côd Argymhellion ar Gyfer Lles Da Byw: Ieir Dodwy - LD1573
Awdurdod Datblygu Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002 - LD1574

## ADRODDIADAU'R PWYLLGOR DEDDFAU

### Dogfennau a Osodwyd ar 9 Gorffennaf 2002

LC515 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1553
LC516 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002 - LD1554
LC517 - Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2002 - LD1555
LC518 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002 - LD1556
LC519 - Rheoliadau Addysg (Lleoedd â Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1557
LC520 - Rheoliadau Addysg (Lleoedd â Chymorth) (Treuliau Ychwanegol) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1552
LC521 - Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002 - LD1558
LC522 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1559
LC523 - The Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils and National Park Authorities) (Wales) Regulations 2002 - LD1560. Dim copi Cymraeg ar gael.
LC494 - The Local Authorities (Executive Arrangements) (Decisions, Documents and Meetings) (Wales) (Amendment) Regulations 2002 - LD1561. Dim copi Cymraeg ar gael.